# y dinesydd

Ebrill/Mai 1999 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 245

# Pennod Newydd Hanesyddol yn Agor yn y Bae

Wrth i'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* fynd i'r wasg, rydym ni'r Cymry ar fin mynd i'r bythau pleidleisio yn ein hetholiad cyffredinol cyntaf erioed fel cenedl; ac erbyn i'r rhifyn gyrraedd dwylo'n darllenwyr bydd pawb yn gwybod canlyniadau'r etholiad hwnnw. Mae'r amseru'n hynod letchwith, felly, inni'r tîm golygyddol! Eto, mae'n anodd peidio â rhoi sylw i'n Cynulliad Cenedlaethol newydd yn y rhifyn hwn o bapur bro'r brifddinas!

Papur amhleidiol yw'r *Dinesydd* mor bell ag y mae gwleidyddiaeth plaid yn y cwestiwn. Cefnogwn bob plaid i'r graddau y maent yn gweithio tuag at y gorau i'n hiaith a'n cenedl.

Mae'r dasg sydd o flaen y Cynulliad yn fawr – creu Cymru lewyrchus o ran ei heconomi a'i diwylliant, Cymru a fydd yn hyderus yn ei hunaniaeth ac ar yr un pryd yn eang ei gorwelion rhyngwladol. Anogwn yr aelodau newydd, pwy bynnag y byddont, i ymroi i'r dasg honno â'u holl egni – a phob dymuniad da iddynt yn eu swyddi allweddol a hanesyddol.



Plant Ysgol Feithrin Treganna yn croes-awu'r Gymru newydd!
Un o'r trêls arbennig sydd ar S4C i gyd-fynd ag etholiadau'r cynulliad.

Cofiwch am

**GYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD**

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y *Dinesydd* nos Iau, 20 Mai 1999, am 7.30 p.m. yn Eglwys Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.

Y mae'r cyfarfod yn agored i holl siaradwyr Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau agos.

*Eich papur bro chwi yw'r Dinesydd. Dewch i ddangos eich cefnogaeth ac i fynegi eich beirniadaeth – bydd croeso i'r naill a'r llall!*

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

**FFAIR HAF**

**Sadwrn, Mai 15fed, 1999**

**10.30 a.m. ymlaen**

Dewch yn llu!
Mae nifer o weithgareddau yn cael ei trefnu.
Bydd sgrîn deledu fawr yn cael ei darparu er mwyn i chi wylio'r gêm!

# Y Dinesydd

**Ebrill/Mai 1999, Rhif 245. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mehefin at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 25 Mai:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333080).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ (Ffôn: 01222-418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................


.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 7** **Ebrill/Mai 1999**



**Ar Draws**

1. Difa Orig â chodwm a chael gwared o'i arfau (8)
4. Hollt a chern (4)
8. Person yn dechrau dawnsio ymysg nadredd (3)
9. Datgan diddiwedd ar lan y môr (5)
10. Digofaint pum cant ar ôl y dilyw (3)
11. Rhywsut y sugnaf a cholli pwysau (7)
12. Ar ôl heddiw ni ddaw byth (5)
13. Ie! Dyn o'i adeg yn troi a darparu beiblau (1,10)
17. Cantor y Sbaeneg mewn tro gwyredig (5)
18. Bu ysgol gymysg yn orchestol (7)
20. ___ ___ ben bid bont (1,2)
21. A oes arwyddocâd mewn blys tyrfa? (5)
22. Gofid poen (3)
23. Yn llaw'r crochenydd mae'n swnio'n fuan (4)
24. A fo mil yn ymdrechu? (8)

**I Lawr**

1. Hapus er hanner edwino mewn diwrnod (6)
2. Cymell bob yn ail fam yn Lloegr (5)
3. Diarddel calon egwan heb oleuni (5)
5. Cynhyrfu'r gog a llu i nerthu (7)
6. Noddwyd ryw fath o offer i'r wniadwraig (6)
7. Garth, yli arth frith talentog! (10)
9. Rhedyn yng ngheg yr ewig (5,2,3)
14. "A phan ddaethant i le a elwid ____, yr hwn a elwir, Lle y benglog" (Mathew) (7)
15. Tric olaf Rhys cyn y diwedd (6)
16. "Pam bu farw dan hoelion rhwng lladron o'i fodd Os nad ydoedd i ____ dy fai?" (Ieuan Gwyllt) (6)
18. Sut y'm gwnaed y siâp hyn? (5)
19. Cig moch o radd i anifeiliaid! (5)

**Atebion Croesair 6 (Mawrth 1999)**

**Ar Draws:** 1. Gogoniant; 5. Neb; 7. Egin; 8. Bwrw eira; 10. Magnolia; 11. Ffion; 13. Dyhead; 15. Cernod; 18. Pwdu; 19. Merthyron; 22. Cynghrair; 23. Bitw; 24. Dau; 25. Llanrhystud.

**I Lawr:** 1. Gwermod; 2. Gwisg; 3. Arwain; 4. Tawch; 5. Neifion; 6. Brain; 9. Gofal; 12. Nerthu; 14. Hyd angau; 16. Diniwed; 17. Herian; 18. Poced; 20. Reiat; 21. Dryll.

**Croesair Rhif 6**

Derbyniwyd pump ar hugain o geisiadau y tro hwn, a dim ond dau wall bach ymhlith yr holl atebion! Da oedd gweld nifer o enwau newydd ymhlith y selogion. Danfonir y tocyn llyfrau at Haydn Thomas, Afallon, 239 Heol Heathwood, Caerdydd. Roedd gormod o atebion cywir y tro hwn i allu rhestru yr holl enwau.

**Cystadleuaeth Ebrill/Mai 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 28 Mai.

## Calendr y Dinesydd

**Mawrth, 18 Mai**
Cymdeithas y Cymod Caerdydd: Gwasanaeth Ewyllys Da, yn Salem, Treganna, am 7.00 p.m.
**Mawrth, 18 Mai**
Cymrodorion y Barri: Gwibdaith i Lanofer o dan arweiniad Mrs Eleri Rogers. Manylion pellach: 01446-732203.
**Mercher, 19 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Thema: 'Am y Gorau', yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Mercher, 19 Mai**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Emrys Roberts yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.
**Iau, 20 Mai**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwibdaith i Dŷ Tregedar a phryd o fwyd i ddilyn. Bws yn gadael Maes Parcio'r Eglwys Newydd am 6.30 p.m. Manylion pellach: 612104.
**Mercher, 2 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Thema: 'Darlleniadau Dramâu', yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Llun, 7 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith. Manylion pellach: 620487.
**Mawrth, 8 Mehefin**
Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mercher, 9 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: 'Allan â ni', yn festri Eglwys y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Iau, 10 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Canu Mawl ger Goleulong am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 12 Mehefin**
Cymdeithas y Cymod Caerdydd: Taith yng nghwmni T. J. Davies yn dilyn hynt George M. Ll. Davies yng Nghwm Rhondda. Yn gadael maes parcio Gorsaf Radur am 1.00 p.m.
**Sadwrn, 12 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: Eisteddfod Merched y Wawr ym Mhontrhydfendigaid.
**Mercher, 16 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Cynhaeaf, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Iau, 17 Mehefin**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Taith Haf. Am fanylion pellach, ffoniwch 491123, 450167 neu 620642.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ.*

## Llongyfarchiadau

– i Arran ac Allan Dallimore ar enedigaeth Iestyn Marc, ŵyr i Mallt a Don Anderson, Caerdydd a Gwen a Graham Dallimore, Coed-duon.
– i Dr Siôn a Janine Phillips, Radur, ar enedigaeth mab, brawd i Edward.
– i Aled Elias a Kathryn Audley ar eu priodas yn ddiweddar yng Nghaer. Mae'r ddau yn ymgartrefu yn Llaneirwg.
– i Gareth Davies, prif weithredwr Clwb Rygbi Caerdydd, ar ei benodi'n gadeirydd Cyngor Chwaraeon Cymru.
– i Illtud Harri ar ei benodi'n swyddog cysylltiadau cyhoeddus i Nwy Prydain ar gyfer Cymru a de-orllewin Lloegr.
– i Gwenllïan Carr a Heledd Williams, ill dwy o ardal Bangor yn wreiddiol, ar gael eu penodi i swyddi yn Adran Farchnata a Chyfathrebu Bwrdd yr Iaith Gymaeg.
- i Gareth Richards, argraffydd *Y Dinesydd*, a Siân Jones ar eu priodas ddechrau Mai.

## Oriel yn Ail-leoli

Mae Oriel, y siop llyfrau Cymraeg ynghanol Caerdydd, wedi symud i safle newydd, sef ar gornel y Stryd Fawr (*High St.*) a Stryd y Cei. Cyfeiriad newydd y siop yw 18-19 Stryd Fawr, Caerdydd CF1 2BZ. Rhif y ffôn yw 395548.

## Gwahoddiad i'r Beirdd (Ifainc!)

Mae Barddas yn cynnal cystadleuaeth i feirdd dan 25 oed eto eleni, sef Cystadleuaeth Tlws Coffa D. Gwyn Evans 1999. Rhoddir y wobr am gerdd heb fod dros 50 llinell ar y tesun 'Gafael'. Y beirniad yw'r Prifardd Meirion Macintyre Huws. Dylid gosod ffugenw wrth bob cerdd a'u hanfon erbyn 30 Mehefin, ynghyd ag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen dan sêl, at Dafydd Islwyn, Teifi, 106 Heol Llancayo, Bargod, Caerffili CF81 8TP.

## Diolch am Roddion

Diolch yn fawr iawn i Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch, Eglwys Undodaidd West Grove, ynghyd â rhai unigolion, am eu rhoddion hael i'r *Dinesydd* yn ddiweddar. Heb eich cymorth chwi a'ch bath, ni fyddai modd inni barhau i gyhoeddi'r *Dinesydd*. Anfoner pob rhodd, yn fawr a mân, at ein Trysorydd: Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

# EISTEDDFOD SAIN FFAGAN

## 20 Tachwedd 1999

**Bydd croeso cynnes i bawb i ail Eisteddfod Amgueddfa Werin Cymru, Sadwrn, 20 Tachwedd** 1999. Trefnwyd 45 o gystadlaethau amrywiol a diddorol ar eich cyfer yn adrannau cerdd, canu gwerin, cerdd dant, dawnsio, adrodd, llenyddiaeth a chelf a chrefft. Dyma rai ohonynt: Parti neu Gôr Plant o dan 12 ac o dan 19; Pedwarawd, Wythawd neu Barti; Côr heb fod dros 40 o leisiau (cyflwyniad yn Gymraeg, dim mwy nag 8 munud); Parti Cerdd Dant; Adrodd i Ddysgwyr (agored); Côr Adrodd neu Gyflwyniad Llafar.

A dyma'r cystadlaethau llenyddol (beirniad ac arweinydd: Islwyn Jones): Cerdd y Gadair: Cyfres o benillion telyn, 'Cymry Enwog yr Ugeinfed Ganrif'; Soned: 'Y Dr Gwynfor Evans'; Cywydd neu gerdd rydd: 'Cais am swydd yn Amgueddfa Werin Cymru'; Englyn: 'Yr Athro Hywel Teifi Edwards' (Llywydd yr Eisteddfod); Deg dihareb (wreiddiol); Pennill beddargraff doniol; Limerig:

Yn ystod y mileniwm nesa(f)
Fe welwn y pethau rhyfedda(f)...

Brawddeg neu frawddegau o'r llythrennau A C CH E G neu I; Brawddeg o'r enw SAIN FFAGAN; Casgliad o gerddi yn ymwneud ag unrhyw ardal neu ardaloedd yng Nghymru (Gwobr: £75, o Gronfa Goffa Elizabeth Reynolds, Brynhoffnant).

Gellir cael rhaglen (yn rhad ac am ddim) oddi wrth yr Ysgrifenyddes: MeinwenRuddock, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 6XB. Tel (01222) 573427 neu 573500.

**Robin Gwyndaf**

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

### Llongyfarchiadau

Yn y llun gwelir Hywel Jones, Carol Grant a David Harbourne a'r Tystysgrifau Addysg Uwch a gyflwynwyd iddynt mewn seremoni ym Mhrifysgol Caerdydd ar 12 Mawrth. Er mwyn ennill y tystysgrifau, bu'r tri yn dilyn cyrsiau yn Adran Addysg Barhaol a Datblygu Proffesiynol y Brifysgol. Llongyfarchiadau gwresog iawn iddynt ar eu llwyddiant.



### Cydymdeimlwm

- â theulu Mrs Lena Beasley, gynt o Uplands Rd, Tredelerch, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 7 Ebrill.

### Twyll Diderfyn Urien Wiliam

*Twyll Diderfyn* yw teitl nofel ddiweddaraf yr awdur toreithiog o'r Barri, Urien Wiliam. Dyma'r drydedd nofel o'i waith i'w chyhoeddi gan wasg y Lolfa. Nofel ddatrys a dirgelwch yw'r nofel ddarllenadwy hon, ac fel yr awgryma'r teitl, y mae'r stori wedi'i seilio ar dwyll ar raddfa fawr. Fel gweddill gwaith yr awdur, ceir digon o symud a chyffro yn y dweud a sawl tro yn y gynffon.

### Hybu Iaith y Cynulliad

O fewn wythnosau i agor y Cynulliad Cenedlaethol, rhoddwyd hwb i'r defnydd o'r Gymraeg ynddo o'r diwrnod cyntaf gyda chyhoeddi geiriadur terminoleg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Geiriadur dwyieithog 179-tudalen yw *Geiriadur Terminoleg Trefniadaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru*. Bydd yn gymorth anhepgor i bawb fydd yn ymwneud â gwaith y Cynulliad mewn unrhyw fodd gan ei fod yn safoni'r termau Cymraeg a Saesneg a fydd yn cael eu defnyddio yn ei ddogfennaeth a'i weithgarwch. Golygydd y geiriadur yw Clive Leo McNeir o gwmni 'The European Language Initiative', a bu nifer o aelodau staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ymhlith y tîm a fu'n ei baratoi.

### Cadwynau Mari



Mari Williams

Un o awduron mwyaf toreithiog y ddinas, yn ddiau, yw Mari Williams, a gyhoeddodd ei seithfed nofel yn ddiweddar. Mae ei nofelau yn gymysgedd o rai i blant a phobl ifainc ac oedolion, ac yn eu plith ceir dwy nofel hanesyddol.

Mae'n dilyn trywydd diddorol yn ei nofel ddiweddaraf, *Torri Cadwynau*, a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Stori ydyw am wraig o'r enw Meryl sy'n gadael cartref i ddilyn ei hynt ei hun am sbel, a neb yn gwybod i ba le'r aeth. Mae'r ymgais hon i ddod o hyd i'w hunaniaeth yn troi'n gyfle iddi ailafael yn ei dawn arlunio. Ond a fydd hi'n ddigon dewr i dorri'r cadwynau sy'n ei chlymu wrth ei hen fywyd? I ateb hynny, bydd yn rhaid ichi ddarllen y nofel!

Mae Mari Williams yn enedigol o Gaerdydd a chafodd ei haddysg yn y 'Cardiff High School for Girls' (fel y'i gelwid yr adeg honno) ac yna ym Mhrifysgol Caer-grawnt. Bu'n byw ym Mangor am flynyddoedd, ac yno y ganwyd y plant, Geraint a Delyth, cyn i'r teulu symud i fyw i Gaerdydd. Wedi symud yn ôl i'r ddinas, bu Mari'n dysgu yn Ysgol Uwchradd Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Nawr ei bod wedi ymddeol, y mae'n gobeithio cael mwy o amser i ysgrifennu. Diau, felly, y cawn rhagor o nofelau eto ganddi maes o law.

### Cymdeithas i Gynfyfyrwyr y Drindod

Bwriedir sefydlu cymdeithas ar gyfer cyn-fyfyrwyr Coleg y Drindod, Caerfyrddin, mewn cyfarfod agored yng Nghanolfan Halliwell yn y Coleg am 3.30 p.m. ddydd Sadwrn, 22 Mai. Am fanylion pellach, cysylltwch â Peter Hughes Griffiths, Coleg y Drindod, Caerfyrddin, SA1 1HE (01267-676767)

### Cylch Cinio'r Barri

Yn absenoldeb anorfod Mr Elwyn Richards fe ddaeth y Parchedig Maxwell Evans i'r adwy ac i ddiddanu aelodau'r Cylch ar nos Fercher, 24 Chwefror. Aeth Max ar drywydd trwy rai o siroedd de Cymru gan alw mewn ambell eglwys, abaty neu lecyn o ddiddordeb. Hwnt ac yma yn ystod y traddodi cafwyd ambell stori i ychwanegu blas ar y gwrando. Diolchwyd i Max am ei gyfraniad parod gan Alun Daniel.

# Deio a'i Drwmped

Y gyfrol ddiweddara yng nghyfres 'Llyfrau Llawen' - cyfres gwasg y Lolfa i blant Cyfnod Allweddol 1 - yw *Deio a'i Drwmped*. Ar ôl cael trwmped newydd mae Deio yn mynd o gwmpas y ddinas yn ymarfer y caneuon pop diweddaraf. Er bod pobl yn cwyno ei fod yn rhy swnllyd, cyn bo hir mae Deio yn cael y lwc rhyfedda!

Mae llawer o'r lluniau sy'n cyd-fynd â'r stori wedi ei seilio ar adeiladau a llefydd enwog yng Nghaerdydd, er enghraifft yr Eglwys Norwyaidd, Parc Cathays a'r Castell. Er ei fod wedi byw mewn sawl dinas ym Mhrydain mae Leon Balen, awdur y gyfrol bellach wedi ymgartrefu ym Mhenarth.



# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EBENESER

### Bedydd

Fore Sul, 7 Chwefror, bedyddiwyd Carys Mair, merch gyntafanedig Rachel ac Arfon Jones.

### Cinio Gŵyl Ddewi

Cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Ebeneser nos Fawrth, 2 Mawrth. Y gŵr gwadd eleni oedd Emyr Jenkins a chroesawyd ef a'i briod i'n plith gan y Llywydd, Malcolm Thomas. Gwnaed elw o £100 tuag at ein helusen eleni, sef Cymdeithas y Deillion.

### Tear Fund Cymru

Bu Siôn Meredydd, trefnydd Tear Fund Cymru, yn annerch ein cwrdd gweddi cenhadol yn Chwefror. Soniodd am waith rhagorol y mudiad hwn yng ngwledydd Prydain ac ar hyd a lled y byd.

## MINNY STREET

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theuluoedd a ffrindiau tair o'n haelodau a fu farw dros y misoedd diwethaf: Mrs Anne Rogers (Pen-y-lan), Dr Rosentyl Griffiths (Parc y Rhath) a Mrs Edith Thomas (gynt o Rhiwbina).

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rolant Gwyn (mab Aled a Menna Gwyn) a Rhian Evans ar eu priodas yng Ngheredigion ar 10 Ebrill.

Cafwyd gwasanaeth cymun arbennig iawn fore Sul y Pasg dan arweiniad y Parchg Huw Ethall. Braint, yn ystod yr oedfa oedd cael tystio i fedydd Catrin Ffion ynghyd â derbyn ei rhieni, Dr Hawys a Dr Phillip Thomas (Rhiwbina) yn aelodau. Daeth tair arall hefyd yn aelodau yn yr oedfa fendithiol hon - Mrs Alice Morgan (Yr Eglwys Newydd), Mrs Heather Ribton (Llanedern) a Dr Menna Wyn Robin (Llandaf). Croeso cynnes iddynt oll.

## EGLWYS UNDODAIDD WEST GROVE

Rhyddheir y Parchg Eric Jones o'i ddyletswyddau eglwysig am gyfnod o dri mis rhwng Ebrill a Mehefin eleni - y tro cyntaf iddo gael unrhyw fath o gyfnod 'sabothol' yn ystod pymtheng mlynedd ar hugain yn gwasanaethu eglwysi Undodaidd Dwyrain Morgannwg. Bwriad Mr Jones yw defnyddio rhan o'r amser hwn i astudio gweddau penodol ar hanes Undodiaeth Gymraeg yn y rhan hon o Gymru.

Cafwyd dau ddatblygiad yn ddiweddar yng ngweithgareddau West Grove. Penderfynwyd cael, am gyfnod arbrofol, un emyn Cymraeg ac un darlleniad Cymraeg unwaith y mis yn y gwasanaethau Saesneg. Hefyd, cychwynnwyd cylch trafod Cymraeg. Mae'r cylch yn cyfarfod yn achlysurol yn ystod yr wythnos yn nhai rhai o'r aelodau a'r bwriad yw trafod amrywiol bynciau o ddiddordeb cyfoes.

### Gweinidog Newydd

Cymerodd y Parchg T. Evan Morgan y cyfrifoldeb am Ofalaeth Salem Treganna a Bethel Rhiwbina ddechrau mis Ebrill. Cafodd ei fagu yn Eglwys Wood Green, Llundain. Wedi ennill gradd BD yn y Coleg Diwinyddol, Aberystwyth, cafodd ei ordeinio yn 1989.

Bu'n Weinidog ar Ofalaeth Maengwyn, Machynlleth yn cynnwys chwech o eglwysi Bro Dyfi. Canolbwyntiodd ar waith ymysg plant a theuluoedd ifainc yn arbennig, heb sôn am ei waith fel Llywydd ac Ysgrifennydd Henaduriaeth Trefaldwyn Uchaf. Bu'n weithgar y tu allan i'w eglwysi, yn Llywydd Clwb Ffermwyr Ifainc y cylch, a hefyd yn Llywydd Cylch Llenyddol y Fro. Bu hefyd yn aelod o gorff llywodraethol Ysgol Gynradd Glantwymyn.

### Ficer yn gadael

Mewn oedfa ddiweddar dywedodd y Parchedig Aled Edwards, Ficer Eglwys Gymraeg Dewi Sant, ei fod wedi penderfynu derbyn swydd yn Swyddog Cyswllt rhwng Cytûn a'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hefyd yn gweithredu fel caplan yn y Gadeirlan yn Llandaf, gyda sylw arbennig i faterion Cymraeg. Mae Eglwys Dewi Sant yn awr yn edrych ymlaen at groesawu ei olynydd. Bwrdd Nawdd yr Esgobaeth biau'r dewis, ac mae sawl si ar led yn barod. Dywed rhai mai gwraig fydd yr offeiriad nesaf. Cawn weld.

### Colli Clifford Jones

Gyda siom ac ymdeimlad mawr o golled y clywyd am farwolaeth y cyfaill annwl Clifford Jones yn Ysbyty'r Brifysgol ar 15 Mawrth 1999. Enillodd barch mawr iddo ei hun yn yr ardal; ac yn arbennig gan aelodau Capel Bethel a hefyd Gapel Beulah lle bu yn aelod am nifer o flynyddoedd. Mynegiant o'r parch hwn oedd presenoldeb y llu cyfeillion a chydnabod a ddaeth ynghyd i'w angladd yn yr Amlosgfa i dalu teyrnged iddo ac i gynnal breichiau Sally a Rhian.

Brodor o Ystradowen, Cwmllynfell oedd Cliff. Bu'n brif ddisgybl Ysgol Dyffryn Aman ac enillodd gap i dîm rygbi bechgyn Cymru. Gweithiodd fel aelod o staff Bwrdd Iechyd Cymru cyn ei alw i'r llynges a dod yn bennaeth ar ysgubydd ffrwydron (*mine-sweeper*). Wedi'r rhyfel daliodd swydd yn y DHSS yn Llundain. Yno yn 1947 y priodwyd Sally a Cliff. Gofynnwyd iddo fynd i Gaerdydd am gyfnod o chwe mis. Trodd y chwe mis yn 52 o flynyddoedd pan gafodd swydd Pennaeth y DHSS yn Nhreganna.

Pan oeddynt yn byw yn Inglefield Avenue bu ef a Sally yn aelodau yn Heol y Crwys. Yn ystod y cyfnod hwnnw y ganwyd eu merch Rhian. Wedi symud i'w cartref newydd yn Heol y Bryn, Rhiwbina ymunodd â Chapel Beulah. Gwnaed ef yn ddiacon ac yn Ysgrifennydd yr Eglwys. Yr oedd hiraeth arno am gapel Cymraeg a phan ymsefydlodd Bethel ym Maes-y-coed ymaelododd ef a Sally yno. Buont yn ffyddlon dros ben gan fwynhau'r gymdeithas yno mewn oedfa Sabothol a Dosbarth Beiblaidd wythnosol.

Mae'n sicr y gwelir ei eisiau yn fawr iawn mewn llawer cylch o fywyd. Yn sicr bydd ei le yn wag iawn ar yr aelwyd. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Sally a Rhian yn eu hiraeth a'u galar. Braint oedd cael adnabod Cliff a melys fydd yr atgofion amdano. "Da was da a ffyddlon."

**D. Haydn Thomas**

### Cymru a'r Sahara

Yn 1997 sefydlwyd Ymgyrch Gorllewin Sahara Cymru er mwyn cefnogi ffoaduriaid o Orllewin Sahara yn eu hymgyrch i ddychwelyd o'r diffeithwch i'w gwlad. Yn rhan o'i gweithgarwch, trefnir ymweliadau â Chymru gan rai o blant gwersylloedd y ffoaduriaid, er mwyn rhoi cyfle iddynt ddianc rhag gwres llethol y diffeithwch a chodi'r ymwybyddiaeth yng Nghymru o'r sefyllfa yng Ngorllewin Sahara. Eleni bwriedir gwahodd deg o blant i Gymru. Cost yr ymweliad fydd tua £5000, yn cynnwys costau teithio. Pe hoffech gefnogi'r fenter mewn rhyw fodd, cysylltwch â Richard G. Jones, Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3AP (228549).

# NEWYDDION YR URDD

## Trip Rygbi'r Urdd

## Cymru v Iwerddon yn Wembli

Ddiwedd mis Chwefror trefnwyd trip i Wembli i weld Cymru'n chwarae Iwerddon. Cafwyd ymateb gwych â bws llawn o ddisgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 Glantaf a Plasmawr yn gadael ar fore Sadwrn, 20 Chwefror i weld y gêm. Gobeithiwn drefnu trip arall yn fuan i weld Cymru'n chwarae pêl-droed. Hoffai'r Urdd ddiolch i ddisgyblion Plasmawr a Glantaf am eu hymddygiad aeddfed yn ystod y trip.



Trip yr Urdd i Wembli i weld Cymru v Iwerddon


Ysgol Iolo Morganwg, enillwyr cystadleuaeth y ddawns dan 12 oed, a Thlws Cwmni CVC Caerdydd

## Eisteddfodau Sir Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Caerdydd a'r Fro

Hoffai'r Urdd longyfarch pawb sydd wedi mynd drwyddo i gynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanbed. Cafwyd Eisteddfodau Sir Cynradd ac Uwchradd llwyddiannus iawn â channoedd o blant y Sir yn cystadlu. Hoffai'r Urdd ddiolch yn arbennig i Ysgol y Wern, Ysgol Treganna, Ysgol Sant Curig, Ysgol Pen-y-garth ac Ysgol Plasmawr am eu cefnogaeth i drefnu a llwyfannu yr Eisteddfodau. Noddwyd yr Eisteddfodau gan gwmnïau Pricewaterhouse Coopers, Hugh James, Jones & Jenkins, Leo Abse Cohen, a CVC.

### Ar y gweill:

**Cwrs Blwyddyn 11** – 11-14 Gorffennaf '99
4 diwrnod mewn canolfan breswyl yn Nghaernarfon
**Trip diwrnod i Ddulyn, Iwerddon**
BBQ ar Black Rock Sands yn y nos
Ymweld â Beddgelert a'r Wyddfa

## Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd

Sefydlwyd yr Aelwyd ym mis Medi 1991 i gwrdd â'r angen sydd ymhlith y rheiny ohonom sydd wedi ymddeol i gyfarfod a chymdeithasu'n rheolaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu'r fenter yn llwyddiannus iawn.

Cynhelir ein cyfarfodydd bob pythefnos ar brynhawn Mercher rhwng 2 a 4 o'r gloch, yn Festri Eglwys Minny Street mewn awyrgylch gynnes, gartrefol. Cynigir cludiant i'r rhai sy'n dymuno ei gael.

Edrychwn ymlaen at y dyfodol gyda hyder - y fath hyder fel ein bod eleni (wedi inni gael blas ar Gystadleuaeth Côr y Pensiynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen-y-bont 1998) wedi archebu bws moethus i fynd â ni i'r Eisteddfod yn Sir Fôn fis Awst. Byddwn yn aros yng Ngwesty'r Imperial yn Llandudno am dair noson, Awst 2-4, ac yn dychwelyd i Gaerdydd ar 5 Awst.

Apeliwn yn daer am gefnogaeth i'r côr. Mae angen cantorion o Gaerdydd a'r Cyffiniau i ymuno â ni ar fyrder. Dewch, gantorion - fe gewch hwyl yn ein plith!

*Cysyllter â'r Parchedig Dyrinos Thomas (01222-489894) neu Mrs Eilonwy Jones (01222-691685).*

## AR DAF YR IAITH A DYFODD.

## ADUNIAD 50 BRYNTAF

Mae'r tocynnau i Ginio'r Dathlu ar gael yn awr. Y dyddiad yw 4 Medi 1999, ac fe'i cynhelir yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Tan 31 Mai mae'r flaenoriaeth i gyn-ddisgyblion a chyn-athrawon a rhieni oedd yn gysylltiedig â'r ysgol rhwng 1949 a 1969. Ar ôl hynny fe fydd yn agored i bawb, felly brysiwch i archebu oherwydd cyfyngir y nifer i 400.

Pris y tocyn yw £45 i ddau, neu £25 i un a hynny'n cynnwys llyfryn o atgofion.

Danfonwch eich cais am docyn ynghyd â siec yn daladwy i "Cronfa cyn-ddisgyblion Bryntaf" at Mrs Ann Williams, 26 Gold Crest Drive, Caerdydd CF2 7HT. Byddwch gystal ag amgau amlen, dim llai na 6" x 4", wedi'i hunan-gyfeirio â stamp arni. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, nodwch hefyd fanylion eich cyfnod ym Mryntaf.

Os am wneud penwythnos ohoni, mae Gwesty'r Parc yn cynnig bargen - gwely a brecwast am dair noson a phryd nos Wener am £98. Cysylltwch â Rhodri Jones, 8 St Cyres Road, Penarth CF64 2WQ.

# YSGOL GLANTAF

## Cystadleuaeth Mathemateg

Eleni eto cymerodd Ysgol Glantaf ran yn yr 'United Kingdom Intermediate Maths Challenge'. Bu 28 disgybl o Flynyddoedd 9, 10 ac 11 yn cystadlu. Ym Mlwyddyn 9, enillodd Gethin James dystysgrif efydd. Llongyfarchiadau arbennig i Alys Rook a enillodd dystysgrif aur gan wneud yn ddigon da i gystadlu yn yr 'European Kangaroo' - cystadleuaeth i ddisgyblion Blwyddyn 9 neu is. Bydd ugain gwlad yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon.

Ym Mlwyddyn 10 enillodd Siôn Wright, Lianne Davies a Rhiannon Evans dystysgrif efydd a Llion Marc dystysgrif arian. Ym Mlwyddyn 11 enillodd James Mackay, Eleri Pound a Gareth Jenkins dystysgrif efydd. Enillodd Elen Evans, Lisa Edwards, Christopher Mason, Geraint Lewis a Rebecca Burton dystysgrifau arian a Dafydd Elis dystysgrif aur. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

## Cwpan Hoci Cymru

Roedd cyrraedd y rownd derfynol yn brofiad hollol newydd i bawb. Doedd neb yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond roedd pawb yn edrych ymlaen at yr ornest.

Roedd y gêm gyntaf yn erbyn ysgol o Wynedd, Ysgol Uwchradd Eirias. Gêm gyfartal oedd hi, ar ôl gôl gan Catrin Kemp. Mewn gwirionedd dylem fod wedi ennill y gêm ar ôl sgorio'n gyntaf, ond yn anffodus sgoriodd y tîm arall yn hwyr yn y gêm i ddod yn gyfartal.

Yn ail, chwaraeon ni Goleg Castell-nedd. Collwyd y gêm hon 4-0 yn erbyn tîm a oedd i ddod yn bencampwyr y gystadleuaeth. Dangoswyd profiad Castell-nedd yn eu chwarae. Maent yn mynychu'r gystadleuaeth yn flynyddol.

Nid oedd colli'r ail gêm wedi cael effaith ar ein perfformiad yn ein gêm yn erbyn Croesyceiliog o Went. Os rhywbeth roeddem yn fwy brwdfrydig i gael canlyniad da ac enillwyd y gêm 1-0. Braf oedd y teimlad o ennill yn erbyn tîm o safon uchel. Roedd ennill y gêm hon yn allweddol gan iddo sicrhau lle yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn y Drenewydd. Efallai bod yr holl ymdrech yn y gêm flaenorol wedi effeithio arnom gan i ni golli 3-0. Ar y chwiban olaf roedd y tîm yn siomedig ond roedd rhaid bod yn hapus i orffen o fewn y pedwar cyntaf yng Nghymru ar ein tro cyntaf yn y gystadleuaeth.

Cymerwn y cyfle i ddiolch i'n hyfforddwyr Mrs Robinson a Mrs Goodfellow am eu hymdrechion a'u cefnogaeth drwy gydol y gystadleuaeth.

**Catrin Asbrey**




**Tîm Hoci Glantaf** - Rhes gefn: Mrs B. Goodfellow, Bethan Thomas, Rhiannon Todd, Catrin Richards, Siân Harries, Catrin Kemp, Siwan Grufudd, Charlotte Davies, Rhiannon Morgan, Mrs Jan Robinson. Rhes flaen: Lucy Evans, Alice Gwynedd, Catrin Asbrey, Sera Asbrey. *Llun: Robin Griffith*

## Tair wythnos yn yr Almaen

Llongyfarchiadau calonnog i Rhiannon Michael, Blwyddyn 12, ar ennill ysgoloriaeth i astudio yn yr Almaen am dair wythnos ym mis Awst. Wyth o ymgeiswyr a ddewiswyd o Brydain allan o 160 - tipyn o gamp felly! Roedd y beirniaid o Lysgenhadaeth yr Almaen wedi eu plesio gan safon ardderchog gwaith Rhiannon a'i brwdfrydedd. Pob lwc iddi!



Rhiannon Michael

## Pencampwyr Pêl-rwyd

Yn ddiweddar aeth dau dîm pêl-rwyd Blwyddyn 10 am ddeuddydd i chwarae yn erbyn ysgolion yn y gorllewin. Bu'r daith yn un llwyddiannus yn erbyn Ysgol y Strade a Dinbych y Pysgod ond colli'n agos yn erbyn ysgol Bro Myrddin. Roedd tîm 'A' Glantaf yn chwarae yn erbyn tîm blwyddyn yn hŷn er mwyn ennill mwy o brofiad ar gyfer cystadleuaeth y Sir y dydd Mercher canlynol. Profodd y daith yn un fuddiol a gorchfygwyd ysgolion Howells, St Cyres a St Teilo yn y rownd derfynol gan adael Glantaf yn fuddugol. Nhw yn awr yw pencampwyr y Sir. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**Gaynor Jones**



Tîm Pêl-rwyd buddugol Blwyddyn 10
O'r chwith: Catrin Williams, Fiona Peet, Ellie Carey, Mr Huw Thomas, Siwan Lloyd, Laura Davies, Angharad Jenkins, Catrin Passmore, Catrin Richards, Carys Holland.

# YSGOL PLASMAWR

## EISTEDDFOD SIR

Bu 27 Mawrth yn ddiwrnod llwyddiannus i Blasmawr, wrth i'r disgyblion gystadlu'n frwd mewn nifer o gystadlaethau llwyfan. Dymunwn bob hwyl i'r pymtheg eitem a fydd yn cynrycholi'r ysgol a'r Sir ym mhrifwyl Llambed:
Unawd Merched – Sophie Elsmore, Deuawd Cerdd Dant – Fflur Dafydd ac Alex Clatworthy, Unawd Piano – Siôn Trefor, Unawd Telyn – Mali Llywelyn, Unawd Cerdd Dant – Lowri Hughes, Dawnsio Gwerin Unigol – Elenid Hatcher, Dawnsio Disgo Unigol – Danielle Hutchings, Parti Merched, Côr S.A., Cyflwyniad Llafar, Ymgom, Cyflwyniad Dramatig a'r Grŵp Dawnsio Gwerin.
*Fe fydd cyngerdd o'r perfformiadau uchod yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol ar 25 Mai am 7.30pm. Croeso i bawb.*

## CHWARAEON RHYNGLYSOL

Ar brynhawn olaf y tymor diwethaf, cynhaliwyd Chwaraeon Rhynglysol yr ysgol. Bu cystadlu brwd ar y caeau hoci a phêl-droed, wrth i'r pedwar llys, - Crwys, Curig, Elfed a Nantlais herio ei gilydd, gyda Nantlais yn cyrraedd y brig. Bu'r prynhawn yn llwyddiant mawr a gwobrwywyd y disgyblion isod yn bencampwyr a phencampwragedd y prynhawn:

| | |
|---|---|
| Blwyddyn 7 | Amy Goodfellow a Gethin Thomas |
| Blwyddyn 8 | Sally Hughes a Geraint Passmore |
| Blwyddyn 9 | Alice Knipping a Craig Rattenbury |

## HOCI

Llongyfarchiadau mawr i Gaia Angove, Blwyddyn 8, sydd wedi ei dewis i gynrychioli'r ysgol yn nhreial terfynol hoci Sir Caerdydd. Dymunwn bob hwyl iddi.

## STOREY ARMS

Yn ystod wythnos gyntaf y tymor yma (19-23 Ebrill), treuliodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 eu hamser yn ymarfer eu sgiliau datrys problemau a gweithio fel tîm yng Nghanolfan Awyr-Agored Storey Arms. Er gwaetha'r tywydd garw roedd pawb wedi mwynhau ac wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cyffrous fel dringo, ogofa a chyfeiriadu. O ganlyniad i lwyddiant y cwrs, mae yna drefniadau ar y gweill rhwng yr ysgol a'r ganolfan i gynnig clwb dringo i ddisgyblion yr ysgol.

## DIWRNOD Y LLYFR

Ar 23 Ebrill cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i gyd-fynd â dathliad cenedlaethol y llyfr. Er mwyn hybu darllen ymysg disgyblion yr ysgol, siaradodd yr athrawon am eu hoff lyfrau darllen a derbyniodd pob disgybl docyn llyfrau. Yn dilyn y gwasanaeth, fe aeth deg disgybl o Flwyddyn 7 i Neuadd y Ddinas i ddathlu'r diwrnod pwysig yma a chael cyfle i wrando ar sêr fel Mega, Angharad Mair a chyflwynwyr *Planed Plant* yn sôn am eu hoff lyfrau darllen. I lansio'r Flwyddyn Ddarllen Genedlaethol, mae'r ysgol wedi sefydlu cynllun darllen sy'n galluogi'r disgyblion i ddarllen am ddau fore yr wythnos er mwyn gwella eu sgiliau darllen a mwynhau darllen fel gweithgaredd.

## TAITH I'R ALMAEN

Yn ystod gwyliau'r Pasg (11-15 Ebrill) aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 i ymweld ag ardal y Rhein. Arhosodd y disgyblion yn "Hotel Erholung" yn St Goarshausen. Ymwelwyd â threfi hanesyddol Cochem a Bad Neuenahr-Ahrweiler a threuliwyd diwrnod ym mharc "Phantasialand" yn Bruhl. Roedd y daith yn un llwyddiannus iawn a chafodd pawb amser da yn ymarfer eu Halmaeneg a phrofi diwylliant y wlad.



Dadorchuddio Cofeb Genedlaethol Cymru i gofio holl ddioddefwyr Newyn Mawr Iwerddon 1845-50, ar ddydd Gŵyl Badrig ym Mynwent Cathays. Fe'i dadorchuddiwyd gan Jon Owen Jones, A.S., a Conor O'Riordan, Conswl Iwerddon yng Nghymru.
Ym mlaen y llun, hefyd, gwelir Daniel Mullins ac Edwin Regan, Esgobion Menefia a Wrecsam, a fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## YSGOL PWLL COCH

Mae'r berthynas agos rhwng yr ysgol agYsgol Uwchradd Fitzalan wedi dod â sawl cyfle i blant y ddwy ysgol gydweithio. Bu plant Pwll Coch yn canu yng ngwasanaeth carolau Ysgol Uwchradd Fitzalan ar ddiwedd tymor y Nadolig a dotio yn naturiol wrth glywed y paniau dur.

Fe alluogodd Mr Angus Dunphy, pennaeth Ysgol Uwchradd Fitzalan, i blant Blwyddyn 2 gwrdd â Wada, yr athro, a chael gwers ar y paniau dur. Roedd yn brofiad hynod a'r plant yn aros yn eiddgar am y tro nesaf.



## Ysgol y Wern

Agorwyd Ysgol Feithrin yn Ysgol y Wern ar 4 Mawrth gan y Faeres, Mrs Marian Drake. Cafwyd bore difyr a'r gwahoddedigion yn mwynhau canu a chwmnïaeth y plant bach.

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn Eisteddfod Sir yr Urdd ar 20 Mawrth, a llongyfarchiadau i'r buddugwyr. Pob hwyl yn Llanbedr Pont Steffan.

Ar 23 Mawrth ymwelodd Mr Peter Haine, Gweinidog Addysg Cymru, â'r ysgol. Pwrpas yr ymweliad oedd cyhoeddi arian ychwanegol at leihau dosbarthiadau a chael mwy o athrawon.

Cafodd plant Blwyddyn 5 y cyfle i gymeryd rhan mewn gweithdai dawns, adrodd stori a Batik o dan arweiniad Julie Ashfield a Megan Lloyd, aelodau o gwmni dawns Indiaidd Cymru. Roeddent wrth eu bodd.

Fel rhan o gynllun 'Capital Rugby' Clwb Rygbi Caerdydd, cafwyd ymweliad gan dri gyn-chwaraewr rhyngwladol, sef Derwyn Jones, Robert Jones ac Emyr Lewis. Diolch yn fawr i Mr John Huw Williams am drefnu'r cyfan i hybu sgiliau rygbi Blwyddyn 5.

Daeth John Phillips o Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr i Ysgol y Wern i lansio cryno ddisg 'Y Tir' er mwyn cyfoethogi gwybodaeth plant y ddinas o arferion bywyd gwledig.

### Yr Adeilad Newydd!

Mae'r râs ymlaen – rhwng stadiwm y mileniwm a'r ysgol newydd i Bwll Coch!

Sgerbwd enfawr y neuadd sy'n tynnu sylw pawb. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen a phawb yn croesi bysedd y bydd popeth yn barod ar gyfer mis Medi 1999.

Mae'r ysgol newydd yn tyfu'n ddyddiol a chyda ymweliad Rhodri Morgan fe gafodd rhai o'r plant gyfle i ddangos yr adeilad iddo, a phob un yn gwisgo'r hetiau caled a fu'n rhodd i'r ysgol gan y cwmni adeiladu.



Adeg Gŵyl Ddewi, bu'r plantos yn dathlu yng nghwmni Dr Harri Pritchard Jones. Erbyn y prynhawn roedd criw y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi trefnu croesi'r ffordd i'r adeilad newydd i rannu Cennin Pedr a phice ar y mân i'r gweithwyr ar y safle adeiladu.






# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




**Y Bêl Hirgron – Canu'n Iach**



Canasom yn iach i Wembli brynhawn Sul, 11 Ebrill, ac nid ymwelaf â'r lle byth eto. "Gwell wyf o'i golli hefyd," meddai Bardd yr Haf, geiriau sy'n gwbl addas wrth sôn am y stadiwm hwn - ond gan bwyll bach! Rhaid sôn am ddiwedd yr ornest olaf honno, canys fe'n gwefreiddiwyd oll yn fwy nag erioed, yn ystod y munudau wedi'r pedwar ugain y prynhawn hwnnw. Lloegr ar y blaen o 31-25 a Chwpan Pencampwriaeth y Pum Gwlad wrth ymyl y maes yn barod ar gyfer ei gyflwyno i gapten y Saeson. Cic gosb bedwar metr y tu allan i 22 Cymru a chic ardderchog gan Neil Jenkins hyd 22 Lloegr - enillwyd y lein gan Chris Wyatt, i Robert Howley, yna i Scott Quinnell a safai yn lle'r maswr, ac ar ôl camdrafod gan yr wythwr, pas byr i Scott Gibbs a wibiodd yn ddeheuig trwy amddiffynfa'r Saeson a thirio'r bêl yn y geisfa. Dangosodd y canolwr ei holl ddoniau yn y deg metr ar hugain - chwimdra, nerth, ochr-gamu a phenderfyniad, a'r canlyniad oedd ennill yr ornest, a rhoi ennyd o gyfaredd inni nas anghofir byth. Ond 31-30 oedd hi o hyd i Loegr a bu raid trosi'r cais; ni phryderwn damaid gan y gwyddwn y gwneid hynny gan Neil Jenkins. Troesai'r maswr ef pe buasai'n rhaid iddo gicio o gefn yr eisteddle - ac aeth y bêl rhwng y pyst. Gallasai Catt, maswr Lloegr, ddymchwel caer ein llawenydd pan geisiodd gicio gôl adlam, ond nid felly yr oedd hi i fod rywsut.

Lwcus oeddem, bid siŵr - dyna oedd barn y Saeson, a sawl Cymro, beth bynnag, ond wedi gweld y fideo ni allaf gytuno. Ni allai Lloegr sgorio cais yn yr hanner olaf - 14-6 oedd hi i Gymru yn y cyfnod hwnnw, dau gais a droswyd i ddwy gôl gosb. Ac ni fu Lloegr yn agos at sgorio cais, a dweud y gwir; ond mae angen llawer o welliant cyn Cwpan y Byd. Collwyd meddiant dro ar ôl tro pan âi Cymro i'r llawr, ac yr oedd diffyg gweledigaeth wrth geisio ymosod - fe fu amddiffyn Lloegr yn diffodd pob fflam o obaith bylchu ar ganol y cae. Ple'r oedd y cicio tactegol? Ond am y tro cawn fwynhau'r heulwen ar ôl gaeaf hir.

## Cymru yn Ewrop

Mae canrif newydd wrth y drws a dyma record Cymru ar feysydd rhyngwladol Ewrop:

| | CH | E | C | Cyfartal |
|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 105 | 49 | 44 | 12 |
| Ffrainc | 74 | 39 | 32 | 3 |
| Yr Alban | 103 | 56 | 45 | 2 |
| Iwerddon | 103 | 59 | 38 | 6 |

Nyni felly sydd â'r record orau yn cyrraedd y ganrif newydd wedi'r cyfan, ond echrydus fu'r degawd hwn - curo Lloegr ddwywaith yn unig, Ffrainc deirgwaith, Yr Alban bedair gwaith ac Iwerddon deirgwaith (a dim un fuddugoliaeth gartref). Ni hiraethwn am ddeng mlynedd olaf yr ugeinfed ganrif, ond gallwn wynebu'r un nesaf â chryn dipyn o hyder, ond cyn hynny bydd Cwpan y Byd.

**Blwddyn y Sosban?**

Crysau cochion a orfu ym Mhen-y-bont hefyd wythnos ar ôl Wembli, ond yr oedd y fuddugoliaeth yn llawer mwy. Curodd Llanelli Gaerdydd o dri chais i un yn Rownd Gyn-derfynol y Cwpan (39-10), ac yn wir, unochrog oedd hi ar ôl rhyw ugain munud. Pan sgoriodd Caerdydd trwy gais gan Craig Morgan, yr oeddwn i'n meddwl mai'r Gleision a'i henillai ond cyn yr hanner yr oedd hi'n amlwg nad felly y byddai hi. Nid gornest i'ch difyrru ond gornest cwpan oedd hi, yn ôl Rupert Moon, ond cawsom gryn dipyn o rygbi cyffrous o bryd i'w gilydd - gan Lanelli, hynny yw.

Faint o les a gafodd Caerdydd o chwarae yn erbyn clybiau Lloegr wedi'r cyfan? Felly Llanelli yn erbyn Abertawe ar 15 Mai ym Mharc Ninian - un anodd i'w darogan, anodd dros ben.

## Y Bêl-droed

Caerdydd i'w ddyrchafu - neu beidio?

Fe ddywedodd Frank Burrows, rheolwr craff a medrus Caerdydd y buasai'r frwydr i ddyrchafu o'r drydedd Adran yn parhau tan gemau ola'r tymor - ac mae'n ymddangos ei fod yn llygad ei le. Er gwaethaf record siomedig Caerdydd o fewn y ddeufis diwethaf (Chwefror a Mawrth) - chwarae 14 gêm, ennill 4, rhannu'r ysbail mewn 8, ond colli dwy yn unig maen nhw'n dal i fod yn yr ail safle y tu ôl i Gaergrawnt, gan fod y timau eraill hefyd yn diffygio.

O'i chymharu â'i record yn y ddeufis blaenorol, sef chwarae 9, ennill 7 a cholli ond dwy, hawdd deall fod rhai cefnogwyr yn dechrau anesmwytho a dangos arwyddion o bryder. Beth aeth o'i le, tybed? Amryw o bethau mae'n amlwg.

Mae'r tîm yn creu digon o gyfleuon i sgorio - ond yn methu â chwblhau'r symudiadau o flaen gôl - 'does dim o'r awch angenrheidiol o fewn y cwrt cosbi. Er bod Nugent (15 gôl) wedi arwain y blaenwyr yn wych, bu trafferthion gyda'i gyd-flaenwyr i sgorio.

'Does dim digon o gymorth i'r blaenwyr o ganol y cae a bu agwedd negyddol timau fel Hull, Torquay a'r Amwythig - i atal a rhwystro-o fawr help.

A phan werthwyd Marc Delaney (un o'r cyflymaf yn y tîm) i Aston Villa am bris pitw o £300,000 cythruddwyd nifer helaeth o'r cefnogwyr. Y teimlad oedd y dylai'r clwb fod wedi aros tan ddiwedd y tymor o leiaf - ac os talodd Villa dros chwe miliwn am Steve Stone (chwaraewr ond cyffredin) roedd Delaney yn werth tri chwarter miliwn o leiaf. Cyn y dyddiad olaf am drosglwyddo roedd sibrydion fod Frank Burrows ar drywydd tri chwaraewr newydd o leiaf - ond nid arwyddwyd yr un. Tybed a welodd ddime goch o'r £300,000 am Delaney - ac onid oedd yn werth mentro ar Eifion Williams o'r Barri - gwerthwyd am £70,000 i Torquay - lle mae eisoes wedi sgorio pedair gôl mewn tair gêm? Roedd sôn fod Burrows â diddordeb i'w arwyddo ac wedi cynnig amdano.

Bellach mae tair gêm yn weddill - un gartref (Scunthorpe) a dwy oddi cartre (Scarborough - o dan reolaeth Colin Addison - a Mansfield) gemau anodd pob un. Mae gan y tîm y dycnwch a'r cadernid a'r awydd i frwydro am bopeth, nad oedd ganddyn nhw y llynedd - ond tybed a ydyw hyn yn ddigon i orffen ymhlith y tri thîm uchaf - a dyrchafiad uniongyrchol? Neu a fydd yn rhaid brwydro yn y gemau ail gyfle. Cael a chael fydd hi - dydi eu tynged ddim yn eu dwylo eu hunain.

Ar raddfa fwy eang - roedd perfformaid Cymru yn y Swistir yn warthus. Mae'n hen bryd i Bobby Gould sylweddoli mai ar amddiffyn cadarn y mae seilio llwyddiant a dylid cofio mai tîm cyffredin iawn oedd y Swistir ac eithrio Chapuisat - a wnaeth ffyliaid o amddiffyn llac Cymru.

**Howard Spriggs**

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222



TELIESYN

Yn eisiau erbyn canol Mis Mai 1999
i gwmni teledu bywiog -

# DERBYNNYDD / TEIPYDD(ES)

gyfrifol i ateb y ffôn, defnyddio prosesydd geiriau a bod yn rhan o dîm bach gweithgar a chyfeillgar.

Cyflog/oriau i'w trafod.
Ysgrifennwch gyda'ch CV/manylion i:

Mrs. Chris Davies, Rheolwr, Teliesyn,
26 Mortimer Road, Pontcanna,
Caerdydd CF1 9JZ.
Ffôn: 01222 300876 Ffacs: 01222 300877
E-bost - tv@teliesyn.demon.co.uk



SWYDDFA'R POST

THE POST OFFICE

# CANOLFAN IAITH GYMRAEG SWYDDFA'R POST

Os hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg i gael manylion am y gwasanaethau sydd ar gael ac i wneud ymholiadau:

ffoniwch

# 0345 468 469

SWYDDFA'R POST

Post Brenhinol

Royal Mail

PARCEL-FORCE WORLDWIDE



# MENTER BRO OGWR

## Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg

Cyflog: £13,000 - £14,000

Lleolir ym Maesteg, yn gyfrifol am y sir gyfan.

Penodiad blwyddyn i ddechrau, gellir rhannu'r swydd.

Danfonwch am ffurflen gais i:

Menter Bro Ogwr
"Ashleigh"
Tir Comin Angleton
Pen-y-bont-ar-Ogwr
CF31 4LL

Dyddiad cau: 11-05-99

***Am sgwrs anffurfiol ffoniwch Mal John ar 01656 6650071***

# CYNGERDD CLASUROL ARBENNIG

## i ddathlu penblwydd Sain yn 30 oed

**NEUADD DEWI SANT**
**Caerdydd**
**Gorffennaf 3 – 7.30 y.h.**

*Huw Llywelyn Davies yn cyflwyno:*

GWYN HUGHES JONES
CÔR MEIBION LLANELLI
D. EIFION THOMAS
CÔR MEIBION PENDYRUS
CÔR SEIRIOL

Tocynnau: £15, £12, £9 a £7 (a gostyngiadau)
Ffoniwch : 01222 - 878444

# TRYDANWR

***gyda dros 20 mlynedd o brofiad***

Prisoedd rhesymol am ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd.

*Ffoniwch*

**CAERWYN DAVIES**
ar **01222 868208**
neu **0468 973229**

# Nant Gwrtheyrn

**Eisteddfod neu wyliau?**
Gallwch gyfuno'r ddau yn Nant Gwrtheyrn?
Hwylus ar gyfer Maes Eisteddfod Môn.
Cyfleus ar gyfer ymweld â mynyddoedd Eryri.
Perffaith ar gyfer traethau bendigedig Pen Llŷn.
Llety gwerth chweil am bris rhesymol i chi, eich teulu a'ch ffrindiau mewn awyrgylch hudolus.
**Eisiau gwybod mwy?**
**Cysylltwch â ni yn syth i sicrhau eich lle!**
☎ 01758 750334 01758 750335 @ nantgwr@aol.com

**Eisteddfod Genedlaethol Môn**

Os hoffech mwy o wybodaeth am wasanaethau'r Nant cysylltwch â: Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd. 01758 750334

